# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14/10/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Ffermwyr sy'n Denantiaid

**C11 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffermwyr sy'n denantiaid? OAQ(3)0811(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahaniaethu rhwng tirfeddianwyr a ffermwyr sy'n denantiaid wrth ddatblygu polisi amaethyddol. Mae ein polisi amaethyddol yn berthnasol i bawb sy'n ffermio ac sy'n rheoli daliad neu ddaliadau penodol.

### Cynhyrchwyr Caws

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchwyr caws yng Nghymru? OAQ(3)0828(RAF)

**Elin Jones:** Mae cymorth penodol ar gael ar gyfer prosesu bwyd a datblygu busnes, ac mae'r gronfa fuddsoddi sengl ar gael i fusnesau mwy o faint. Mae cymorth marchnata a datblygu ar gael hefyd i hwyluso twf a nodi cyfleoedd yn y farchnad.

### Polisïau Materion Gwledig

**C13 Andrew R.T. Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisïau materion gwledig? OAQ(3)0805(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda fy nghydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros y misoedd diwethaf. Mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar ystod eang o faterion, gan gynnwys rhannu costau a datganoli cyllidebau iechyd anifeiliaid, materion bwyd, tagio electronig ar ddefaid a'r polisi addasu genetig. Mae trafodaethau cyson hefyd yn cael eu cynnal ar lefel swyddogion.

### Bwyd Llysieuol

**C14 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu bwyd llysieuol yng Nghymru? OAQ(3)0818(RAF) [W]

**Elin Jones:** Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng hyrwyddo cynnyrch llysieuol ac unrhyw fath arall o gynnyrch bwyd yng Nghymru, fel cynnyrch llaeth neu gynnyrch organig. Yr ydym yn cydnabod, fodd bynnag, y bu cynnydd yn y galw yn y farchnad am gynnyrch sy'n perthyn i gategori llysiau, ac yr ydym yn mynd i'r afael â hynny drwy gyfrwng ein strategaeth garddwriaeth.

**Diogelwch Bwyd**

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gafodd â Llywodraeth y DU ynghylch 'diogelwch bwyd'? OAQ(3)0803(RAF)

**Elin Jones:** Fis Mai diwethaf, cyfarfu Gweinidogion bwyd o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yng Nghaeredin yn ffurfiol i drafod materion diogelwch bwyd, ac i nodi meysydd lle y byddai o fudd inni gydweithio. Mae'r fenter hon yn parhau, ac mae mwy o gyfarfodydd ffurfiol yn yr arfaeth ar gyfer mis Rhagfyr, yn ogystal â mis Mawrth 2010.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

**Anghenion Ynni**

**C10 Nerys Evans:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael am anghenion ynni Cymru? OAQ(3)0975(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr yn y Cabinet, OFGEM, cwmnïau ynni a Llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion ynni. Bydd y trafodaethau hynny a'r ymateb i ymgynghoriad trywydd ynni adnewyddadwy Cymru yn 2008 yn llywio dull strategol Llywodraeth y Cynulliad o fynd i'r afael ag ynni. Byddaf yn cyhoeddi manylion y dull hwnnw tua diwedd y flwyddyn.

**Llifogydd**

**C11 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â bygythiad llifogydd yng Nghasnewydd? OAQ(3)0989(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio'r polisi cenedlaethol ac yn darparu'r rhan fwyaf o gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae mesurau lleol i reoli perygl llifogydd yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yng Nghasnewydd, mae mesurau i fynd i'r afael â rheoli perygl llifogydd ar lan ddwyreiniol afon Wysg, gwastatir Gwent a Phont-hir yn cael eu hystyried.

**Tai—Y Diwydiant Adeiladu**

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cael gyda'r diwydiant adeiladu ynghylch tai? OAQ(3)1016(ESH)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi cyfarfod yn unigol gyda nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant adeiladu, gan gynnwys Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru, Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain. Yr wyf wedi cynnal trafodaethau ar y cyd â phawb y mae Cynghrair yr Ewyllysgar yn ei gynrychioli yn y diwydiant.

**Tai Fforddiadwy**

**C13 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cyfyngiadau cynllunio yng nghyswllt cyflenwi tai fforddiadwy? OAQ(3)0992(ESH)

**Jane Davidson:** Mae'r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd yn cael ei effeithio gan y dirywiad economaidd ar hyn o bryd. Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ar ddefnyddio'r broses gynllunio i fwrw

ymlaen â'r datblygiadau a sicrhau bod cynifer â phosibl o dai fforddiadwy yn cael eu darparu yn ystod y dirywiad economaidd.

### Cynnal Amddiffynfeydd Dŵr

**C14 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal amddiffynfeydd dŵr? OAQ(3)1005(ESH)

**Jane Davidson:** Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw lleihau'r perygl o lifogydd i bobl ac eiddo drwy annog mesurau rheoli perygl llifogydd sy'n dechnegol gadarn, yn ystyriol o'r amgylchedd, yn economaidd hyfyw ac yn gynaliadwy. Mae cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag dŵr neu lifogydd yn elfen bwysig o'r dull rheoli perygl.

### Cartrefi mewn Parciau

**C15 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am symud at dribiwnlys cyflafareddu trigolion cartrefi mewn parciau? OAQ(3)1012(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Yr ydym yn gwneud trefniadau ar hyn o bryd i newid y ffordd y mae anghydfodau yn cael eu datrys drwy drosglwyddo awdurdodaeth o'r llysoedd sirol i'r tribiwnlysoedd eiddo preswyl.